Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ein Cymoedd Ein Dyfodol | Our Valleys Our Future

# Cynllun Cyflawni 2019-21





@TrafodyCymoedd #Ein Dyfodol

# Cynnwys


Rhagair y Cadeirydd 3

**Blaenoriaeth 1** **5**
**Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni** **5**

Hybiau Strategol a sicrhau bod yr A465 yn cael yr effaith economaidd fwyaf posibl 6
Economi Sylfaenol 8
Swyddi Gwell yn Nes at Adref 10
Entrepreneuriaeth a Chymorth Busnes 11

**Blaenoriaeth 2** **15**
**Gwell gwasanaethau cyhoeddus** **15**

Tai 16
Cronfa Arloesi Tasglu'r Cymoedd 19
Trafnidiaeth 20

**Blaenoriaeth 3** **21**
**Fy nghymuned leol** **21**

Parc Rhanbarthol y Cymoedd 22

Ymgysylltu 27

Atodiad A: Llywodraethu 28

Atodiad B: Aelodau'r Tasglu 29














Peilot bws y tu allan i oriau. Gan weithio'n agos gyda'r adran Gwaith a Phensiynau a'r Canolfannau Gwaith lleol, bydd y cynllun peilot yn darparu teithio fforddiadwy a hygyrch i gysylltu pobl, cymunedau a swyddi.

# Rhagair y Cadeirydd

Rôl y tasglu yw cynghori Llywodraeth Cymru ar ddull newydd o fuddsoddi yn nyfodol ein Cymoedd. Bydd y dull hwn yn ymgysylltu â chymunedau lleol ac yn eu grymuso, yn datblygu eu hasedau ac yn adfer ymdeimlad o obaith ac uchelgais.

Rydym wedi gwrando ar bobl sy'n gweithio ac yn byw yn y Cymoedd ac rydym yn parhau i wrando arnynt. Rwy'n benderfynol, yn ystod y cam cyflawni olaf hwn[1] y bydd tasglu'r Cymoedd yn canolbwyntio ei holl adnoddau ac ymdrechion er mwyn cael yr effaith fwyaf, yn yr hirdymor a'r byrdymor.

Felly, mae Cynllun Cyflawni'r flwyddyn hon yn llai o faint – bydd y ffocws a'r ymdrechion wedi'u hanelu at y meysydd lle y gallwn wneud gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, na fyddai'n digwydd fel arall oni bai am y tasglu. Nid yw hyn yn golygu nad yw'r camau gweithredu hynny sydd wedi'u dileu yn parhau i fynd rhagddynt. Maent yn bendant yn gwneud hynny ac yn parhau i fynd i'r afael â nifer o'r canlyniadau a nodir yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, maent yn cael eu goruchwylio gan adrannau eraill o'r llywodraeth. Bydd bwrdd rhaglen trawslywodraethol tasglu'r Cymoedd sydd ar waith yn sicrhau bod cydgysylltiadau â'r camau gweithredu hyn yn parhau.

Wrth inni agosáu at ddiwedd y rhaglen waith yn ystod tymor y Cynulliad hwn, rwy'n ymwybodol bod angen i allbynnau'r tasglu fynd ymhellach y tu hwnt i dymor y llywodraeth hon. Gwneir hyn drwy ymgorffori ein gwaith yn y cynlluniau hirdymor ar gyfer Llywodraeth Cymru a gweithio mewn partneriaeth.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddais fod y tasglu wedi cytuno i ganolbwyntio ar saith maes blaenoriaeth, pob un ohonynt yn cael ei lywio gan is-grŵp o arbenigwyr perthnasol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r gwaith.

Mae'r meysydd hyn fel a ganlyn:

- Hybiau strategol
- Economi Sylfaenol[2]
- Entrepreneuriaeth a chymorth busnes
- Tai
- Cronfa arloesi tasglu'r Cymoedd
- Trafnidiaeth
- Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

Mae'r cynllun cyflawni yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai is-grwpiau yn fwy sefydledig nag eraill ar yr adeg hon. Er enghraifft, mae'r camau gweithredu ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn fanwl iawn am fod yr is-grŵp ar gyfer hyn wedi bod ar waith ers peth amser. Lle mae is-grwpiau newydd gael eu sefydlu, caiff y cynllun cyflawni hwn ei ddiweddaru yn y dyfodol i gynnwys unrhyw gamau gweithredu pellach rydym wedi cytuno arnynt.

Er bod nifer o gamau gweithredu presennol wedi'u cynnwys yn y fersiwn hon o'r Cynllun Cyflawni, mae camau gweithredu newydd sy'n ymwneud yn benodol â'r saith maes a restrwyd uchod hefyd wedi'u cynnwys.

Fel y nodwyd yn Niweddariad Cynnydd Medi 2019 www.llyw.cymru/ein-cymoedd-ein-dyfodol-diweddariad-ar-gynnydd-2018-i-2019, mabwysiadir dull thematig o wario'r £25 miliwn a ddyrannwyd i'r Hybiau Strategol yn wreiddiol. Bydd hyn yn sicrhau y defnyddir y cyllid i gynyddu ac ehangu prosiectau a mentrau o ansawdd da a gynllunnir yn y Cymoedd yn unol ag uchelgeisiau'r tasglu, fel y'u nodir yn y Cynllun hwn.

[1] Bydd y tasglu ar waith tan fis Mawrth 2021.


[2] Mae'r Economi Sylfaenol yn enw am y gweithgareddau busnes hynny a ddefnyddir gennym bob dydd. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthwyr ar y stryd fawr oll yn enghreifftiau o'r economi sylfaenol.

Mae aelodau'r tasglu yn gyfrifol am oruchwylio a herio cynnydd parhaus. Ers ymgymryd â rôl Cadeirydd y tasglu, rwyf wedi achub ar y cyfle i sicrhau bod sgiliau ac arbenigedd aelodau'r tasglu yn adlewyrchu'r meysydd blaenoriaeth newydd. Rwy'n hynod ddiolchgar am holl waith yr aelodau gwreiddiol sydd wedi camu o'r neilltu gan alluogi aelodau newydd i ymuno â'r tasglu. Rhoddir manylion aelodau'r tasglu yn Atodiad B.

Ym mis Gorffennaf eleni, cyhoeddais fod ffiniau ardal y tasglu yn cael eu hehangu i gynnwys Cymoedd Gwendraeth ac Aman. Mae'r Prif Weinidog wedi cytuno i ehangu'r ffiniau am fod yr ardaloedd hyn, yn ddiwylliannol, yn rhan o faes glo de Cymru, gyda'u treftadaeth neilltuol sy'n ymwneud â mwyngloddio glo carreg, a rennir â'r Cymoedd cyfagos i'r dwyrain. Dengys y map ar y dde ffin newydd y tasglu (at ddibenion monitro).

Mae gwaith tasglu'r Cymoedd yn parhau i gwmpasu llawer o agweddau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws yr ystod o nodau yn ogystal â'n ffyrdd o weithio.

Er mwyn cyflawni'r cynllun hwn bydd angen i bob un ohonom gydweithio'n agos, gyda'r ymroddiad parhaus i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bob person sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymoedd De Cymru.






**Lee Waters AC**
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

# Blaenoriaeth 1

## Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni

Bydd y tasglu yn parhau i weithio'n agos gyda bargeinion dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bae Abertawe i gysoni a, lle y bo'n briodol, gyd-ddarparu rhai o'i uchelgeisiau a rennir yn well mewn meysydd megis yr economi sylfaenol; sgiliau; data; ynni a thwf glân.

Yn ogystal â'r camau a nodir yn y cynllun hwn, mae nifer o weithgareddau a rhaglenni eraill, sy'n cefnogi'r flaenoriaeth hon a'n targed allweddol i helpu 7,000 o bobl i gael gwaith teg erbyn 2021.

Er enghraifft, bydd Fframwaith Economaidd Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru yn pennu nodau cyffredin ac egwyddorion clir ar gyfer cydweithio ledled y Rhanbarth. Bydd yn ystyried y cyfleoedd a'r heriau economaidd sy'n benodol i Dde-ddwyrain Cymru ac yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i roi'r Cynllun Gweithredu Economaidd ar waith a chreu Rhanbarth mwy ffyniannus, mwy cyfartal a chynaliadwy.

Ymhlith rhai o gyflawniadau allweddol y tasglu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae:


PitchIt Valleys. 43 o entrepreneuriaid y Cymoedd yn anelu ar gyfer buddsoddiad £75,000.


Mae £10 miliwn wedi'i neilltuo gan Dasglu'r Cymoedd er mwyn helpu i ailddefnyddio cartrefi gwag yn y cymoedd.


Coleg AB, Cwmbrân.


Coleg AB, Cwmbrân.

### Swyddi o ansawdd a'r sgiliau i'w gwneud

**£1.5 miliwn** wedi'i roi i brosiectau'r Economi Sylfaenol yn y Cymoedd

**125** o weithdai cymorth busnes wedi'u cynnal ledled y Cymoedd

**809** o bobl wedi cael cymorth un i un neu gymorth drwy weithdy

**43** o entrepreneuriaid yn y Cymoedd wedi ymgeisio am fuddsoddiad o £75,000

**1391** o bobl heb waith wedi cael cymorth cyflogadwyedd

*Erbyn 2021:*

*Byddwn yn cau'r bwlch cyflogaeth rhwng Cymoedd y De a gweddill Cymru. Mae hyn yn golygu helpu 7,000 yn rhagor o bobl i gael gwaith teg ac y bydd miloedd o swyddi newydd, teg, diogel a chynaliadwy yn cael eu creu yn y Cymoedd.*

*Bydd pobl sy'n byw yn y Cymoedd yn cael mynediad at y sgiliau cywir i gael gwaith.*

*Bydd busnesau'n cael cefnogaeth lawn i dyfu a ffynnu yng Nghymoedd y De.*

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Hybiau Strategol a sicrhau bod yr A465 yn cael yr effaith economaidd fwyaf posibl | | | |
| Monitro'r cynnydd ac ystyried cynigion ariannu yn y dyfodol ar gyfer y saith Hyb Strategol. | Bydd yr hybiau strategol yn canolbwyntio ar greu swyddi drwy ddenu buddsoddiad y sector preifat, gan sicrhau bod busnesau sydd yno'n barod yn gallu tyfu a chan hyrwyddo busnesau newydd. Bydd hyn yn cynnwys gwireddu cyfleoedd adfywio economaidd drwy ddarparu tai a gwasanaethau cyhoeddus, a gwella cysylltedd drwy Fetro De Cymru. | Tachwedd 2019 – Sefydlu is-grŵp i gytuno ar gamau gweithredu a fydd yn sicrhau y caiff yr Hybiau Strategol gymorth i gyflawni eu canlyniadau arfaethedig ar gyfer eu hardaloedd lleol, a bwrw ymlaen â nhw.<br>Ar waith – Monitro cynnydd a hwyluso buddsoddiad penodol parhaus yn yr Hybiau Strategol.<br>Ar waith – Adolygu ac argymell unrhyw gynigion ariannu yn y dyfodol ar gyfer yr Hybiau Strategol. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; dwy fargen ddinesig; datblygwyr sector preifat; busnesau. |
| Adleoli mwy o swyddi sector cyhoeddus yn y Cymoedd, gan gynnwys yn lleoliadau'r saith hyb strategol, lle y bo'n briodol, yn unol â Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru. | Bydd cyrff ac adrannau'r sector cyhoeddus yn adleoli i rannau o Gymoedd De, gan helpu i gefnogi'r economi leol a chreu sylfaen i ddatblygu cyfleoedd gwaith yn lleol. | Parhaus – Parhau i ddatblygu cronfa alw a gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi safleoedd posibl ledled Cymoedd y De.<br>Parhaus – Asesu safleoedd a chyfleoedd i adleoli ac ehangu, gan gynnwys ar gyfer:<br>• Cyrff hyd braich Llywodraeth Cymru<br>• Cyrff sector cyhoeddus Cymru<br>• Cyrff sector cyhoeddus y DU<br>• Adrannau eraill Llywodraeth Cymru.<br>Parhaus – Gweithio gyda Llywodraeth y DU i gwmpasu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. | Sefydliadau'r sector cyhoeddus; Llywodraeth Cymru; Llywodraeth y DU. |

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Hybiau Strategol a sicrhau bod yr A465 yn cael yr effaith economaidd fwyaf posibl | | | |
| Sicrhau bod mwy o dir ac eiddo cyhoeddus ar gael yn y Cymoedd ar gyfer datblygu. | Bydd tir cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i gynnig cyfleoedd datblygu economaidd. | Parhaus – Yn dilyn peilot llwyddiannus yn ardal Cwm Taf, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r cynllun grant, a oedd yn sicrhau bod cyllid ar gael i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gynnal ymarfer mapio asedau a nodi cyfleoedd i gydweithio er mwyn manteisio i'r eithaf ar sail asedau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.<br>Parhaus – Gweithio gydag awdurdodau lleol a'r ddwy fargen ddinesig i asesu lle mae cyfleoedd i alinio tir ac eiddo sydd ar gael yn erbyn blaenoriaethau strategol, gan gynnwys cysylltiadau â'r saith hyb strategol. | Awdurdodau lleol; dwy fargen ddinesig; Llywodraeth y DU; Llywodraeth Cymru; y GIG; byrddau gwasanaethau cyhoeddus. |
| Cyflwyno strategaeth economaidd i ardal Blaenau'r Cymoedd erbyn Hydref 2020 sy'n nodi'r holl gamau cenedlaethol, strategol a lleol sydd angen eu cymryd er mwyn manteisio ar y buddsoddiad yn yr A465. | Caiff cadwyni cyflenwi newydd eu datblygu a chaiff cyllid o brosiectau seilwaith yn y Cymoedd ei gadw er mwyn creu swyddi lleol o ansawdd da. | Tachwedd 2019 – Sefydlu is-grŵp i gytuno ar gamau gweithredu a fydd yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y buddsoddiad yn yr A465 a bwrw ymlaen â nhw (ychwanegir rhagor o gerrig milltir ar adeg briodol).<br>Ionawr 2019 – Cynnal adolygiad o'r gwaith mapio ac ymgysylltu sydd eisoes wedi'i wneud ar y cyd â Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a phartneriaid allweddol eraill.<br>Comisiynu (os oes angen) gwaith i gynnal ymarferion mapio ychwanegol a darparu rhagor o dystiolaeth. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; Trafnidiaeth Cymru; dwy fargen ddinesig; LSKIP; y sector preifat. |

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Hybiau Strategol a sicrhau bod yr A465 yn cael yr effaith economaidd fwyaf posibl | | | |
| Buddsoddi yn yr adnodd mapio data ar gyfer Cymru gyfan, Map Data Cymru, er mwyn datblygu ei wydnwch, ei swyddogaeth a'i gynnwys i ddarparu mynediad hawdd at ddata daearyddol ac ystadegol y gellir ei ddefnyddio i lywio ac annog buddsoddiad i gymoedd y de. | Symud i seilwaith newydd sy'n seiliedig ar gwmwl er mwyn sicrhau geo-borth sefydlog a diogel y gellir ei ehangu ar gyfer rhannu ar draws y Llywodraeth yn ogystal â'r sector preifat a'r dinesydd. Gwell ymwybyddiaeth a mynediad at Fap Data Cymru gan ddefnyddwyr y sector cyhoeddus a phreifat. Cynnwys mwy o setiau data i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch mewnfuddsoddi yn ardal tasglu'r Cymoedd. | Rhagfyr 2019 – profion mewnol ar Fap Data Cymru ar ei blatfform newydd, gweithio ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru.<br>Ionawr 2020 – mwy o setiau data, gweithdai gyda phartneriaid allanol a phartneriaid polisi allweddol.<br>Mawrth 2020 – gweithio gydag awdurdodau lleol fel partneriaid i lanlwytho data i Fap Data Cymru. | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; awdurdodau lleol; Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| Economi Sylfaenol | | | |
| Cyflwyno, cefnogi a monitro Cronfa Her yr Economi Sylfaenol[3]. | Codi proffil yr economi sylfaenol yn y Cymoedd ac ysgogi trafodaeth a dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio. | Ionawr 2020 – Cynnal digwyddiad cychwynnol gyda phob prosiect llwyddiannus yn y Cymoedd er mwyn rhannu gwybodaeth a chanllawiau a dechrau meithrin ymdeimlad o berthyn a rhyngddibyniaeth fel carfan.<br>Parhaus – Gweithio gyda'r Gymuned Ymarfer ffurfiol (pan gaiff ei sefydlu) a phrosiectau yn y Cymoedd er mwyn nodi arferion gorau a dysgu. | Llywodraeth Cymru gan gynnwys Busnes Cymru; Grŵp Cynghori'r Gweinidog; cymorth allanol trwy gymuned ymarfer (dylid pennu partneriaid allanol); cynrychiolwyr is-grŵp yr economi sylfaenol (Ffederasiwn Busnesau Bach; Bargen Dinas Caerdydd; Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Llywodraeth Cymru). |
| Lledaenu ac ehangu arferion gorau drwy ystyried gwerth cymdeithasol o fewn prosesau caffael. Defnyddio dulliau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn helpu i wneud cynnydd cyflym. | Atgyfnerthu cadwyni cyflenwi lleol. | Ionawr 2020 – Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus[4] (fel cynlluniau peilot y cytunwyd arnynt) er mwyn gweithredu'r argymhellion yn adroddiad CLES a nodi arferion gorau a dysgu. | Llywodraeth Cymru gan gynnwys Gwerth Cymru; Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; Grŵp Cynghori'r Gweinidog; cynrychiolwyr Is-grŵp yr Economi Sylfaenol (Ffederasiwn Busnesau Bach; Bargen Dinas Caerdydd; Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Llywodraeth Cymru). |

[3] Ceir manylion prosiectau sy'n cael eu hariannu gan Gronfa Her yr Economi Sylfaenol yma – www.businesswales.gov.wales/cy/yr-economi-sylfaenol

[4] Mae adroddiad CLES, gan y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES), yn adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n nodi argymhellion ar weithredu gweithgareddau caffael blaengar sy'n cynrychioli blaenoriaethau lles lleol.

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Economi Sylfaenol | | | |
| Creu is-grŵp ar yr economi sylfaenol er mwyn datblygu cerrig milltir yn seiliedig ar ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r economi sylfaenol sy'n canolbwyntio ar y canlynol:<br>• cronfa arbrofol<br>• sicrhau bod gwariant caffael yn cael yr effaith fwyaf posibl er mwyn creu cyfoeth lleol<br>• datblygu sail gadarn o gwmnïau canolig gwreiddiedig. | Hyrwyddo a gwella'r economi sylfaenol yn y Cymoedd. | Tachwedd 2019 – Sefydlu'r is-grŵp.<br>Caiff camau gweithredu a cherrig milltir manylach eu datblygu gan yr is-grŵp a chaiff y Cynllun Cyflawni ei ddiweddaru ar adeg briodol. | Ffederasiwn Busnesau Bach; Bargen Dinas Caerdydd; Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Llywodraeth Cymru (pob aelod o Is-grŵp yr Economi Sylfaenol). |
| Cyflwyno Swyddi Gwell yn Nes at Adref yn y Cymoedd i greu cyfleoedd go iawn a swyddi boddhaol lle mae'r angen mwyaf. Mae hyn yn cynnwys defnyddio prosesau caffael cyhoeddus i gefnogi busnesau a chadwyni cyflenwi lleol. | Bydd swyddi lleol yn cael eu cynnal a phrofir sut y gellir defnyddio caffael cyhoeddus i ymyrryd lle gall cadwyni cyflenwi lleol greu swyddi. | Gweler tudalen 10 am ragor o fanylion.<br>Peilot 1<br>Rhagfyr 2019: Yr arwydd cyntaf o gynaliadwyedd gwaith a nifer y swyddi. I'w gofnodi bob chwarter.<br>Peilot 2<br>Rhagfyr 2019: Adroddiad ar wersi a ddysgwyd i'w gwblhau.<br>Peilot 3<br>Ionawr 2020: Ffordd ymlaen i'w gytuno a'i bennu.<br>Peilot 4<br>Rhagfyr 2019: Adroddiad ar wersi a ddysgwyd i'w gwblhau. | Llywodraeth Cymru; y GIG; Cynghorau Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf; Ardal Fenter Blaenau Gwent; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Canolfan Cydweithredol Cymru; mentrau cymdeithasol sy'n gyfrifol am weithredu'r pedwar cynllun peilot; TUC Cymru. |

# Swyddi Gwell yn Nes at Adref

Mae pedair rhaglen beilot fasnachol wedi'u lansio mewn ymateb i ymgyrch Swyddi Gwell yn Nes at Adref TUC Cymru. Mae'r rhain wedi cynnwys defnyddio deddfwriaeth gaffael i gadw contractau addas, gan alluogi ffatrïoedd hen a newydd a gynorthwyir i gynnig cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i'r bobl fwyaf difreintiedig yn yr ardal.

Mae Swyddi Gwell yn Nes at Adref yn profi cyfres o ymyriadau masnachol; bydd llwyddiant y rhaglenni peilot yn golygu y bydd modd rhoi ymyriadau tebyg ar waith, gan helpu sefydliadau eraill sector cyhoeddus i gynnal rhaglenni caffael o'r fath a chael gwared ar y rhagdybiaeth na ellir gwneud hynny.

### Peilot un

**Gweithgynhyrchu dillad yng Nglynebwy, gan greu 25 o swyddi newydd ar gyfer pobl ddifreintiedig.**

Bydd y peilot hwn yn penodi partner cymdeithasol i weithredu uned weithgynhyrchu yng Nglynebwy. Bydd yr uned weithgynhyrchu yn gweithredu fel marchnad lafur ryngol yn y gadwyn gyflenwi economaidd sylfaenol, gan wneud dillad safonol i'w defnyddio mewn diwydiannau, gan gynnwys y sector cyhoeddus.
**Canlyniad** – 25 o swyddi newydd ar gyfer pobl ddifreintiedig.

Agorodd y ffatri ar gyfer busnes ym mis Medi 2019.

### Peilot dau

**Cyflogaeth lawn amser i staff rhan-amser yn EBO Signs yng Nglynebwy.**

Roedd y fenter gymdeithasol hon yn bodoli eisoes ac mae ond yn cyflogi pobl ddifreintiedig gyda'r nod o gynyddu oriau gwaith y gweithlu presennol.
**Canlyniad** – amgylchedd gweithredu busnes cynaliadwy ar gyfer pobl anabl.

Fodd bynnag, er i nod cychwynnol y cynllun peilot i gynyddu'r galw gael ei gyflawni, nid oedd hyn yn ddigon i sicrhau bod y fenter gymdeithasol yn gallu parhau i weithredu. Yn anffodus, aeth y Fenter i ddwylo'r gweinyddwyr ar ddechrau haf 2019. Daethpwyd o hyd i swyddi i'r mwyafrif o'r staff gyda mentrau cymdeithasol eraill.

### Peilot tri

**Nod y peilot gwreiddiol oedd sefydlu ffatri ailbeiriannu paent yn Rhondda Cynon Taf, gan greu 10 swydd newydd ar gyfer pobl ddifreintiedig gyda'r nod o greu 25 o swyddi newydd ar gyfer pobl ddifreintiedig a lleihau carbon ymgorfforedig yng nghadwyn gyflenwi'r sector adeiladu yng Nghymru.**

Fodd bynnag, oherwydd oedi parhaus wrth ddatblygu'r safle mae cwmpas y peilot wedi'i adolygu.

### Peilot pedwar

**Cynyddu'r galw am bapur gwastraff ar gyfer Elite Paper Solutions ym Mhentre-Bach, Merthyr Tudful, gan greu cyfleoedd i bobl ddifreintiedig gael profiad gwaith hollbwysig.**

Mae hon yn fenter gymdeithasol sy'n bodoli'n barod ac mae'n cyflogi pobl anabl, pobl ddigartref a phobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, sy'n gweithredu fel marchnad lafur ryngol. Mae'r cwmni yn casglu, yn didoli ac yn rhwygo papur gwastraff ond mae angen mwy o dunelli o bapur arno.
**Canlyniad** – cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth bellach ac i'r fenter fod yn hunangynhaliol.

Ym mis Tachwedd 2019, mae'r cynllun peilot hwn yn parhau i fod yn llwyddiannus gyda 46 o bobl newydd yn cael eu cyflogi dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Entrepreneuriaeth a chymorth busnes | | | |
| Datblygu a hyrwyddo diwylliant entrepreneuriaeth sy'n ffynnu yn y Cymoedd drwy gysylltu rhanddeiliaid partner er mwyn cynnig cymorth hygyrch i'r bobl hynny sy'n meddwl am entrepreneuriaeth. | Dulliau mwy effeithiol a chydgysylltiedig o gefnogi entrepreneuriaid a busnesau.<br>Pobl a busnesau yn gweithredu ar uchelgais a chyfleoedd entrepreneuraidd. | Ebrill 2020 – Cyflwyno cynllun peilot cyn dechrau busnes i bobl mewn cymunedau yn y Cymoedd gogleddol er mwyn ystyried entrepreneuriaeth a sut i gael cymorth arall, ysgogi trafodaeth gychwynnol ac annog unigolion i ddatblygu syniadau a chymryd y camau cyntaf tuag at entrepreneuriaeth.<br>Erbyn Mai 2021 – Gweithio gyda phartneriaid drwy Syniadau Mawr Cymru er mwyn nodi entrepreneuriaid sy'n fodelau rôl a chyflwyno sesiynau ysbrydoli i bobl ifanc mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a lleoliadau cymunedol gan ganolbwyntio ar drosi syniadau yn gamau gweithredu.<br>Erbyn Mai 2021 – Dyfarnu grantiau i golegau a phrifysgolion er mwyn eu galluogi i gynnal gweithgareddau i gyflymu entrepreneuriaeth myfyrwyr a helpu i atgyfnerthu gallu sefydliadol i fod yn berchen ar gamau gweithredu entrepreneuraidd a'u llywio.<br>Erbyn Mai 2021 – Gweithio gyda phartneriaid cymorth i fusnesau o gymunedau yn y Cymoedd er mwyn cyflwyno rhaglen o weithgareddau menter dan arweiniad y gymuned a fydd yn nodi unigolion dan anfantais ac yn ymgysylltu â nhw er mwyn eu helpu i ystyried hunangyflogaeth fel dewis gyrfaol cadarnhaol.<br>Erbyn Mai 2021 – Darparu cymorth cyn dechrau busnes drwy hybiau menter y Cymoedd yng Nghaerffili a Chaerfyrddin a thrwy is-hybiau allgymorth mewn cymunedau yn y Cymoedd er mwyn ysgogi syniadau ac annog gweithredu sy'n arwain at fusnesau newydd. | Syniadau Mawr Cymru; colegau a Phrifysgolion; Llywodraeth Cymru; Busnes mewn Ffocws; ICE Cymru; Busnes Cymru; Creu Sbarc; awdurdodau lleol.<br>Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol. |

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Entrepreneuriaeth a chymorth busnes | | | |
| Darparu cymorth ymarferol er mwyn helpu pobl mewn cymunedau yn y Cymoedd i greu busnesau newydd cynaliadwy, gan gynnwys mentrau sy'n cael eu sbarduno gan arloesedd. | Cynnydd yn nifer y busnesau newydd. | Gorffennaf 2020 – Cynnal cyfres o Gymorthfeydd Busnes mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol a chymunedol er mwyn cefnogi darpar entrepreneuriaid drwy'r cam dechrau busnes a'u cysylltu â chymorth busnes priodol.<br>Erbyn Mai 2021 – Mae cymorth ar gael gan Busnes Cymru i'r rhai sy'n ystyried neu sydd am ddechrau busnes newydd (cyfuniad o ddigidol, gweithdai a chynghori).<br>Erbyn Mai 2021 – Mynediad at gymorth ariannol i fusnesau newydd sy'n dechrau drwy Fanc Datblygu Cymru ac Angylion Buddsoddi Cymru.<br>Erbyn Mai 2021 – Rhoi cymorth i fusnesau newydd drwy hybiau menter y Cymoedd yng Nghaerffili a Chaerfyrddin a thrwy is-leoliadau allgymorth mewn cymunedau yn y Cymoedd er mwyn ysgogi syniadau ac annog gweithredu sy'n arwain at fusnesau newydd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys darparu lleoedd cydweithio hyblyg a chymorth 'cofleidiol' i fusnesau o amrywiaeth o ffynonellau a phartneriaid (gan gynnwys y sector preifat).<br>Erbyn Mai 2021 – Cynnal gweithgareddau entrepreneuriaeth dan arweiniad y gymuned er mwyn cefnogi darpar entrepreneuriaid drwy'r cyfnod dechreuol a'u cysylltu â chymorth busnes priodol. | Busnes Cymru; Banc Datblygu; Angylion Buddsoddi Cymru; banciau a buddsoddwyr preifat; ICE Cymru; Busnes mewn Ffocws, Busnes Cymru; Creu Sbarc; colegau, prifysgolion ac awdurdodau lleol partner; Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddechrau gyda phartneriaid a gaffaelwyd i gyflawni; Llywodraeth Leol; Swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad; partneriaid lleol eraill. |

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Entrepreneuriaeth a chymorth busnes | | | |
| Targedu busnesau'r Cymoedd o'r economi sylfaenol a'r rhai sy'n dangos cryn botensial i dyfu a chynnig cefnogaeth ychwanegol iddynt. | Twf busnes cyson a chyflymach a sicrheir drwy fwy o werthiannau, cyfleoedd i allforio, mynediad at gyllid a chyflogi staff. | Rhagfyr 2019 – Gweithio gyda phartneriaid allanol i gynnal digwyddiad 'PitchIt' yn y Cymoedd gyda grŵp o fuddsoddwyr ecwiti preifat sy'n gysylltiedig ag Angylion Buddsoddi Cymru a gyda chymorth 'cofleidiol' i fusnesau gan bartneriaid ym mhob rhan o'r ecosystem.<br>Mehefin 2020 – Cyflwyno grŵp cymorth Rhwng Cymheiriaid bach ar gyfer yr economi sylfaenol a sylfaenwyr/arweinwyr busnesau twf uchel.<br>Hydref 2020 – Creu Sbarc a Rhaglen Cyswllt Ddiwydiannol MIT i sicrhau sesiynau achlysurol ar wahanol bynciau gydag arweinwyr busnesau, partneriaid ac academyddion ysbrydoledig yn y Cymoedd.<br>Erbyn Mai 2021 – Gweithio drwy Busnes Cymru i roi cefnogaeth a chymorth busnes ymarferol er mwyn cefnogi twf cyson ar gyfer pob busnes gan gynnwys mentrau cymdeithasol, drwy gyfuniad o gymorth digidol, gweithdai a chyngor.<br>Erbyn Mai – Cymorth wedi'i dargedu i fusnesau â chryn botensial sy'n tyfu drwy Raglen Cyflymu Twf Busnes Cymru.<br>Erbyn Mai 2021 – Mynediad at gyllid tyfu ac ehangu (dyled ac ecwiti) drwy Fanc Datblygu Cymru ac Angylion Buddsoddi Cymru.<br>Erbyn Mai 2021 – Nodi'r hyn a ddysgwyd o gynllun peilot cymorth busnes gofal cymdeithasol y Cymoedd ac ymchwilio i'r opsiynau i gyflwyno hyn mewn rhannau eraill o'r Cymoedd. | Llywodraeth Cymru gan gynnwys Busnes Cymru; Banc Datblygu; Angylion Buddsoddi Cymru; banciau a buddsoddwyr preifat; Creu Sbarc; colegau a phrifysgolion; entrepreneuriaid yn y Cymoedd. |

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Entrepreneuriaeth a chymorth busnes | | | |
| Darparu cyngor a chanllawiau i fusnesau yn ardal tasglu'r Cymoedd sy'n ymwneud â'r economi gylchol ac arloesi. | Adnoddau mwy effeithlon ac arbedion cost cysylltiedig a swyddi newydd/wedi'u diogelu mewn busnesau ac yn y trydydd sector. | Erbyn Mai 2021 – Gall busnesau yn ardal tasglu'r Cymoedd fanteisio ar hyd at 8 diwrnod o gyngor ac arweiniad a gyllidir yn llawn ar gyfer prosiectau gweithgynhyrchu neu ddylunio cymwys a allai ymwneud â'r economi gylchol.<br>Erbyn Mai – Bydd Busnes Cymru fel rhan o'i gynnig cymorth yn darparu cyngor ar effeithlonrwydd adnoddau i fusnesau yn y Cymoedd ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r economi gylchol drwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol. | Busnesau a chymorth drwy SMART Cymru a Busnes Cymru. |
| Cyn i raglen Cymorth Gwaith Cymru ddechrau ym mis Ebrill 2020, darparu cymorth cyflogadwyedd i bobl ddi-waith o fewn ardaloedd tasglu'r Cymoedd drwy'r Rhaglen Fynediad. | Bydd gan y rheini sy'n chwilio am waith ers llai na 24 mis yn ardal tasglu'r Cymoedd fynediad mwy hwylus i gymorth cyflogadwyedd. | Ebrill 2020 – Bydd mwy na 2000 o unigolion yn y Cymoedd wedi manteisio ar gymorth cyflogadwyedd a sgiliau drwy'r Rhaglen Fynediad er mwyn cael gafael ar gyflogaeth a'i chadw. | Llywodraeth Cymru; Gyrfa Cymru; rhaglenni cyflogadwyedd eraill. |

# Blaenoriaeth 2

## Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus

Nodir ar y tudalennau canlynol y camau y bydd y tasglu yn eu cymryd er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn i ddod.

Yn ogystal â'r rhain, mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud mewn perthynas â nifer o gamau gweithredu, er nad yw'r tasglu yn canolbwyntio arnynt mwyach. Er enghraifft, mae ffyrdd o hyrwyddo rhagnodi cymdeithasol yn cael eu treialu drwy nifer o gynlluniau peilot ledled Cymru, gan gynnwys yng Nghaerffili. Bu cydgysylltwyr yn gweithio gyda phobl i bennu eu nodau personol eu hunain er mwyn eu grymuso i ddatblygu ymatebion anghlinigol amgen i reoli a gwella eu hiechyd meddwl. Gallai hyn, er enghraifft, fod drwy weithgareddau cymdeithasol a chorfforol, cymorth ariannol a chyfeillio. Caiff y cynlluniau peilot eu gwerthuso, a fydd yn nodi pa ymyriadau sydd fwyaf effeithiol ac yn helpu i lywio polisi ar ragnodi cymdeithasol ar gyfer iechyd meddwl ledled Cymru yn y dyfodol.

O flwyddyn i flwyddyn mae'r Grant Datblygu Disgyblion wedi'i ehangu er mwyn cefnogi'r dysgwyr mwyaf difreintiedig, gan gynnwys y rhai o'r Cymoedd. Yn ogystal â'r elfen prydau ysgol am ddim; mae'r Grant Datblygu Disgyblion bellach yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, y rhai yn y blynyddoedd cynnar, y rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r elfen fwyaf newydd – sef y Grant Datblygu Disgyblion-Mynediad – wedi'i chyflwyno er mwyn helpu rhieni i dalu rhai o gostau'r diwrnod ysgol. Comisiynwyd Plant yng Nghymru i lunio canllaw "Cost y Diwrnod Ysgol" sydd ar gael yma www.hwb.gov.wales/repository/tree?sort=created&language=cy

Mae cynlluniau peilot ledled Cymru, gan gynnwys ym Mlaenau Gwent a Thorfaen, wedi'u cyflwyno er mwyn atgyfnerthu cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion. Bydd y rhain yn para tan fis Rhagfyr 2020 a fydd yn cyd-daro â'r gwerthusiad terfynol.

Ymhlith rhai o gyflawniadau allweddol y tasglu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae:

**Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus**

**Cynlluniau peilot trafnidiaeth gymunedol wedi'u datblygu**
yng Nghastell-nedd a Blaenau Gwent

**Cynllun peilot bws y tu allan i oriau**
yng nghymunedau'r Cymoedd

**£10 miliwn**
wedi'i roi i fenter Cartrefi Gwag y Cymoedd

*Erbyn 2021:*

*Bydd gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'r trydydd sector a chymunedau lleol i ymateb i anghenion pobl.*

*Bydd cymorth ar gael i helpu pobl i fyw bywydau iachach, gan wella eu lles corfforol a meddyliol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.*

*Bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn gydgysylltiedig, yn fforddiadwy ac yn helpu pobl i fynd i'r gwaith, i'r ysgol neu i hyfforddiant, ac i gyfleusterau hamdden.*

*Byddwn yn gwella canlyniadau addysg i bob plentyn ac yn cau'r bwlch cyrhaeddiad.*

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Tai | | | |
| Cyflwyno cam un Cynllun Grant Cartrefi Gwag Rhondda Cynon Taf ledled ardal tasglu'r Cymoedd. | Cynnydd yn nifer y cartrefi gwag a gaiff eu defnyddio unwaith eto ledled y Cymoedd, a fydd yn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn ogystal â lleihau'r tebygolrwydd y ceir ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd hynny. | Tachwedd 2019 – Rhondda Cynon Taf i sefydlu tîm er mwyn dechrau cyflawni cam un y Cynllun ledled ardaloedd tasglu'r Cymoedd.<br>Tachwedd 2019 – Awdurdodau lleol ledled tasglu'r Cymoedd sy'n bwriadu cymryd rhan yn y cynllun i ymrwymo i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a ddarperir.<br>Tachwedd 2019 – Awdurdodau lleol i helpu i hyrwyddo'r cynllun yn eu hardaloedd drwy weithgarwch hyrwyddo wedi'i dargedu a'r cyfryngau cymdeithasol. | Llywodraeth Cymru; Rhondda Cynon Taf; awdurdodau lleol. |
| Datblygu a dechrau cam dau Grant Cartrefi Gwag Rhondda Cynon Taf. Bydd y meini prawf yn cynnwys buddion am gyfrannu at yr agenda datgarboneiddio drwy ddefnyddio mesurau effeithlonrwydd ynni a mynediad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chynghorau awdurdodau lleol wneud cais i ddefnyddio cartrefi cymdeithasol unwaith eto. | Manteision i'r economi leol, mwy o gartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto a chynnydd yn nifer y cartrefi ynni effeithlon. | Tachwedd 2019 - Sefydlu Is-grŵp Tai tasglu'r Cymoedd a chynnal ei gyfarfod cyntaf er mwyn ystyried ffurf bosibl cam dau'r grant.<br>Ionawr 2020 – Cyflwyno newidiadau allweddol model cam dau i Fwrdd tasglu'r Cymoedd.<br>Ebrill 2020 – Dechrau'r broses o gyflawni cynllun cam dau.<br>Ar waith – Adroddiadau cynnydd rheolaidd i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn monitro a chofnodi'r defnydd a wneir o'r cynllun. | Adrannau Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig; Banc Datblygu Cymru (cynrychiolir pob un o'r uchod ar yr Is-grŵp Tai). |

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Tai | | | |
| Gweithio'n agos gyda rhanbarth Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sydd wedi nodi bod tai yn flaenoriaeth. Sicrhau bod cyllid yn gydategol er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i Dde-ddwyrain Cymru (y bydd y mwyafrif ohono yn y Cymoedd).<br>Yn 2017-18 ehangwyd y Gronfa Datblygu Eiddo drwy fuddsoddi £30m ychwanegol a lansiwyd Cronfa Safleoedd Segur Cymru gyda buddsoddiad o £40m, drwy Fanc Datblygu Cymru. Drwy'r ddwy gronfa hyn bydd cyfanswm buddsoddiad (gydag ailgylchu) o £430m. | Cynnydd yn nifer y cartrefi newydd a adeiledir yn y Cymoedd. | Ebrill 2020 – Adroddiad ar gyfanswm y gwariant yn ardal y tasglu hyd yma drwy bob cynllun.<br>Ebrill 2020 – Adroddiad ar gyfanswm y BBaChau a gefnogwyd drwy bob cynllun yn ardal y tasglu.<br>Ebrill 2020 – Nifer o eiddo wedi'u hadeiladu o ganlyniad i gymorth a gafwyd drwy'r cynlluniau.<br>Ebrill 2020 – Sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn y Cymoedd, a chymryd camau unioni gyda'r Banc Datblygu os nad oes digon o ffocws ar y Cymoedd. | Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; Banc Datblygu Cymru; Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr; adeiladwyr tai sy'n BBaChau; awdurdodau lleol. |

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Tai | | | |
| Lle y bo'n briodol, ymgorffori'r argymhellion perthnasol o adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree, "Effective housing for people on low incomes in the Welsh Valleys", a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, wrth weithredu ar argymhellion yr Adolygiad o Gyflenwad Tai Fforddiadwy (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019). | penodol ardal y tasglu eu hystyried drwy weithredu ar yr argymhellion o'r adolygiad annibynnol o gyfenwad tai fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys argymhellion ynghylch y canlynol ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:<br>• Deall anghenion tai<br>• Safonau ansawdd tai<br>• Polisi rhenti<br>• Awdurdodau Lleol fel galluogwyr ac adeiladwyr<br>• Tir y sector cyhoeddus<br>• Ariannu tai fforddiadwy. | Er bod yr argymhellion hyn o'r Adolygiad o Gyflenwad Tai Fforddiadwy yn cael eu gwneud ar gyfer Cymru gyfan, byddant yn mynd i'r afael â nifer o'r materion a godwyd yn adroddiad JRF.<br>Cynigir y dylid penderfynu'n derfynol ar yr union ffordd y caiff pob un o argymhellion yr Adolygiad o Gyflenwad Tai Fforddiadwy ei roi ar waith erbyn mis Ebrill 2020 (gyda rhai eithriadau y bydd angen mwy o amser i'w datblygu).<br>Fodd bynnag, caiff rhai agweddau eu cyflawni cyn hyn sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag argymhellion adroddiad JRF megis:<br>Hydref/Tachwedd 2019 – Y penderfyniad ar bolisi rhenti cymdeithasol i'w gyhoeddi<br>Tachwedd/Rhagfyr 2019 – Safonau ansawdd tai diwygiedig i'w cyhoeddi er mwyn iddynt gael eu rhoi ar waith o 2020<br>Rhagfyr/Ionawr 2020 – Canllawiau atgyfnerthedig y Cyfrif Refeniw Tai i'w cyhoeddi/rhannu ag awdurdodau lleol (ALlau) er mwyn helpu ALlau i adeiladu mwy o dai. | JRF; Panel Annibynnol yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy; awdurdodau lleol; Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig; Sefydliad Bevan. |

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Cronfa Arloesi Tasglu'r Cymoedd | | | |
| Datblygu rhaglen alumni, sy'n ategu cynlluniau presennol y gall pob ysgol uwchradd yng Nghymoedd De Cymru fanteisio arni. | Dulliau mwy effeithiol a chydgysylltiedig o gefnogi entrepreneuriaid a busnesau. Pobl a busnesau yn gweithredu ar uchelgais a chyfleoedd entrepreneuraidd. | Tachwedd 2019 – ESefydlu Gweithgor Alumni.<br>Tachwedd 2019 – Gwerthuso rhaglenni alumni presennol er mwyn deall manteision a chyfyngiadau pob un a chynnig opsiynau ar gyfer cynllun newydd.<br>Tachwedd 2019 – Asesu opsiynau ar gyfer gweithio gyda chontractwyr neu raglenni presennol i ddatblygu'r cynllun alumni neu ddatblygu contract newydd, drwy broses gaffael o bosibl.<br>Rhagfyr 2019 – Nodi grŵp o ysgolion uwchradd fel y garfan gychwynnol i ddatblygu'r cynllun a gweithredu fel 'mainc arbrofi'.<br>Parhaus – Hwyluso cyfres o weithdai i benaethiaid er mwyn mesur a sicrhau cefnogaeth. Hefyd yn gweithio gyda rheolwyr busnes (isod) i weld sut y gellir defnyddio'r rôl hon i gefnogi'r cynllun alumni.<br>Ebrill 2020 – Cyhoeddi'r cynllun newydd a gaiff ei gyflwyno i garfan gychwynnol o ysgolion uwchradd. Adolygiad parhaus o ysgolion a chynnydd i'w gynnal hyd hynny. | Coleg y Cymoedd; Addysg a Gwella Iechyd Cymru; ysgolion uwchradd, colegau; Llywodraeth Cymru; Busnes Cymru; Gyrfa Cymru. |

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Cronfa Arloesi Tasglu'r Cymoedd | | | |
| Rheolwyr busnes medrus iawn sy'n canolbwyntio ar y gymuned i gefnogi partneriaid ac ysgolion yn y gymuned leol a chynyddu'r cysylltiadau rhyngddynt. Cynlluniau peilot sy'n cael eu cynnal yn ardaloedd tasglu'r Cymoedd gan gynnwys: Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili (dau glwstwr); Rhondda Cynon Taf (tri chlwstwr); a Thorfaen. | Bydd cysylltu ysgolion â phartneriaid yn sicrhau amrywiaeth o fanteision, gan gynnwys amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu wedi'u cyfoethogi, safonau gwell a mwy o ddefnydd o safleoedd ysgolion. | Tachwedd 2019 – Cyllid wedi'i ddyfarnu a'r cynlluniau peilot wedi dechrau.<br>Mai 2020 – Cwblhau adroddiad/astudiaeth achos derfynol o'r ardaloedd peilot.<br>Caiff diweddariadau rheolaidd eu cwblhau. | Llywodraeth Cymru; ysgolion; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; partneriaid cymunedol; y trydydd sector. |
| Trafnidiaeth | | | |
| Is-grŵp Trafnidiaeth i'w sefydlu er mwyn pennu'r cyfeiriad ar gyfer atebion trafnidiaeth arloesol yng Nghymoedd De Cymru. Bydd ei waith yn adeiladu ar y materion allweddol a godwyd yn ystod digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd tasglu'r Cymoedd a Thrafnidiaeth Cymru a gynhaliwyd ledled y rhanbarth yn ystod mis Medi a mis Hydref 2019. | Cydgysylltu gwasanaethau'n well, gwella ansawdd, amlder a fforddiadwyedd teithio. | Tachwedd 2019 – cyfarfod cyntaf yr is-grŵp i'w gynnal.<br>Llywio a monitro llwyddiant tri chynllun trafnidiaeth gyhoeddus peilot yn y Cymoedd, gan gynnwys: cynllun peilot O'r Cymoedd i'r Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn y Rhondda, cynllun peilot Teithio Ymatebol Integredig Trafnidiaeth Cymru ym Mlaenau Gwent a chynllun peilot sy'n ymwneud â Thrafnidiaeth Gymunedol yng Nghastell-nedd.<br>Caiff camau gweithredu a cherrig milltir manylach eu datblygu gan yr is-grŵp a chaiff y Cynllun Cyflawni ei ddiweddaru ar adeg briodol. | Trafnidiaeth Cymru; Lywodraeth Cymru; Sustrans; Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr; Y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol; Dinas-ranbarth Caerdydd; awdurdodau lleol. |

# Blaenoriaeth 3

## Fy nghymuned leol

Fel uchod, mae nifer o raglenni a gweithgareddau yn cael eu cynnal ledled Cymru a fydd o fudd i'r Cymoedd ac yn mynd i'r afael â'r materion yr hysbyswyd y tasglu amdanynt wrth ymgysylltu â chymunedau. Er enghraifft, dyfarnwyd £2.86 miliwn drwy raglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys £650k gan dasglu'r Cymoedd ar gyfer adfer ac ailddatblygu Neuadd y Dref ym Maesteg. Bydd y prosiect hwn sy'n werth £6.87m yn trawsnewid Neuadd y Dref yn gyfleuster amlddefnydd a fydd yn gartref i wyth BBaCh a 30 o swyddi gan gynnwys naw swydd newydd.

O dan yr un cynllun, mae cynllun Cwm Taf ym Mhontypridd yn cael tua £10 miliwn a bydd yn dod â 10,000 o weithwyr i ganol y dref.

Fel rhan o'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio, mae dau gynllun ymyrraeth thematig (sef Cronfa Datblygu Eiddo Canol Trefi a Grant Byw yng Nghanol Trefi) yn mynd rhagddynt yn dda, gyda nifer da o brosiectau yn yr arfaeth. Bydd hyn yn gwella eiddo masnachol yn ein trefi sy'n hybiau strategol ac yn ei gwneud yn bosibl i arwynebedd llawr gwag uwchlaw safleoedd masnachol gael ei addasu i'w ddefnyddio at ddibenion preswyl.

Cafodd cyllid adfywio gwerth £2.5m ei roi ar fenthyg i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyflwyno tir ar gyfer tai ar safle Washery West, Maesteg yng Nghwm Llynfi.

Mae camau yn cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau difrifol i iechyd pobl sy'n byw mewn cymunedau yn y Cymoedd sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael, fel rhan o Gynllun Aer Glân Cymru.

Ymhlith rhai o gyflawniadau allweddol y tasglu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae:

### Fy Nghymuned Leol

**£7 miliwn**
wedi'i fuddsoddi mewn 11 o Byrth Darganfod

Tim pwrpasol ar gyfer
**Parc Rhanbarthol y Cymoedd**

**£8 miliwn**
wedi'i fuddsoddi mewn

**Llety ymwelwyr** yn Rock UK, Neuadd Llechwen a BikePark Wales

**Hyrwyddo'r Cymoedd** fel cyrchfan o safon uchel i ymwelwyr

*Erbyn 2021:*

*Bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi ei sefydlu i helpu cymunedau lleol i ddathlu a manteisio i'r eithaf ar y defnydd o adnoddau naturiol a threftadaeth.*

*Bydd canol trefi'r Cymoedd yn llawn bywyd gyda digon o fannau agored gwyrdd, a fydd yn fodd i gefnogi'r economi leol.*

*Bydd y Cymoedd yn gyrchfan gydnabyddedig i dwristiaid, a fydd yn denu ymwelwyr o bob cwr o'r DU a thu hwnt.*

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Parc Rhanbarthol y Cymoedd | | | |
| Datblygu naratif newydd a chadarnhaol ar gyfer twristiaeth yn y Cymoedd a nodi prosiectau i fodloni gofynion twristiaeth presennol a rhai'r dyfodol, gan ganolbwyntio ar y dirwedd, y dreftadaeth a'r bobl. | Mae gan y Cymoedd enw da am weithgareddau hamdden awyr agored o ansawdd uchel gyda chymunedau a busnesau yn elwa ar economi ymwelwyr sy'n ffynnu.<br>Mae'r Cymoedd yn cael eu cydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ansawdd a harddwch eu tirweddau a'u treftadaeth unigryw.<br>Bydd nifer yr ymwelwyr â'r Cymoedd, a'r arian y mae ymwelwyr yn ei wario, yn cynyddu. | Mehefin 2020 – Parhau i fwrw ymlaen â datblygiadau twristiaeth preifat allweddol a arweinir gan y sector yn y Cymoedd.<br>Mawrth2020 – Os llwyddir i lansio cylch cyllido newydd, bydd cymorth wedi'i dargedu ar gyfer prosiectau seilwaith twristiaeth bach yn y Cymoedd ar gael.<br>Erbyn Gorffennaf 2020 – Dechrau Rhaglen Buddsoddi yng Nghastell Caerffili sy'n werth £5m – trawsnewid yr heneb yn atyniad treftadaeth o'r radd flaenaf. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; y sector twristiaeth; y trydydd sector; y sector preifat, Croeso Cymru; y sector cymunedol. |
| Nodi cyfleoedd i ddenu digwyddiadau newydd i'r Cymoedd - digwyddiadau chwaraeon, megis beicio mynydd a chyfeiriannu a datblygu digwyddiadau presennol, megis Gŵyl Steelhouse, yng Nglynebwy. | Bydd nifer yr ymwelwyr â'r Cymoedd, a'r arian y mae ymwelwyr yn ei wario, yn cynyddu.<br>Caiff proffil y Cymoedd fel ardal ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol ei godi. | Tachwedd 2019 – Dechrau ymgysylltu'n effeithiol â Ffordd Cymru[4], er mwyn creu cysylltiadau cryfach a meithrin gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd sy'n bosibl yn y Cymoedd, yn barod ar gyfer Gwanwyn/Haf 2020. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; Chwaraeon Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru; Croeso Cymru; y sector twristiaeth. |
| Creu tîm brwd a dawnus gyda chysylltiadau cryf â Llywodraeth Cymru a phartneriaid Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, i gefnogi datblygiad a gweithrediad Parc Rhanbarthol y Cymoedd. | Tîm cymorth gyda'r sgiliau priodol i wireddu gweledigaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd a gweithio mewn partneriaeth ar draws pob sector a gyda chymunedau. | Rhagfyr 2019 – Tîm cymorth llawn wedi'i sefydlu. | Llywodraeth Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; awdurdodau lleol; y Trydydd Sector; Byrddau Iechyd; Iechyd Cyhoeddus Cymru. |

[1] www.visitwales.com/inspire-me/wales-way

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Parc Rhanbarthol y Cymoedd | | | |
| Datblygu Thema Un Parc Rhanbarthol y Cymoedd: Tirwedd, Diwylliant a Hunaniaeth.<br>• Gan weithio gyda phartneriaid, sicrhau 11 o safleoedd Porth Darganfod ledled y Cymoedd.<br>• Nodi llwybrau darganfod posibl i gysylltu â'r Pyrth Darganfod. | Mae Pyrth Darganfod yn safleoedd blaenllaw enghreifftiol sy'n arddangos y Cymoedd.<br>Cydweithio a chydgysylltu gwell rhwng awdurdodau'r Cymoedd a phartneriaid eraill drwy draws-hyrwyddo, cyfeirio a chyfnewid arferion gorau er mwyn hyrwyddo eu hunain ac asedau diwylliannol a naturiol y rhanbarth ehangach.<br>Mae Pyrth Darganfod yn gweithredu fel safleoedd partneriaeth lle mae cymunedau a busnesau lleol wedi'u cysylltu'n well er mwyn cefnogi iechyd a llesiant a'r economi sylfaenol.<br>Mwy o ddiddordeb yn nhreftadaeth naturiol a diwylliannol y Cymoedd ac atyniadau ar draws y Cymoedd a mwy o wybodaeth amdanynt ymhlith ymwelwyr a phobl leol.<br>Twristiaeth fwy cynaliadwy sy'n rhoi hwb economaidd.<br>Naratif cadarnhaol o'r Cymoedd er mwyn helpu i newid canfyddiadau mewnol ac allanol negyddol.<br>Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn helpu i gyflawni agweddau gweithredol ar y Datganiadau Ardal a Chynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.<br>Gwell ecosystemau a gwasanaethau ecosystemau yn y Cymoedd. | Rhagfyr 2019 – Presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn rhannu digwyddiadau Parc Rhanbarthol y Cymoedd a'r cyfleoedd a gynigir ganddo.<br>Mawrth 2020 – Cynhelir digwyddiadau cymunedol ar bob un o safleoedd y Pyrth Darganfod er mwyn rhannu cynlluniau datblygu a thrafod uchelgeisiau ehangach Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br>Mawrth 2020 – Cam cyntaf gwefan Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi'i lansio.<br>Mawrth 2020 – Bydd y Pyrth Darganfod yn gweithio'n agos gyda CNC ar eu themâu sy'n dod i'r amlwg a chyfleoedd i gyflawni Deddf yr Amgylchedd a Pholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng Datganiadau Ardal a Chynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>Ebrill 2020 – cam cyntaf y broses o ddatblygu'r Pyrth Darganfod wedi'i gwblhau.<br>Mehefin 2020 – Cynllun cydweithio a chydgysylltu'r Pyrth Darganfod wedi'i roi ar waith gan adlewyrchu Meini Prawf y Pyrth Darganfod. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; Cyfoeth Naturiol Cymru; y Trydydd Sector; Croeso Cymru; Caru'r Cymoedd; Byrddau Iechyd; Iechyd Cyhoeddus Cymru. |

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Parc Rhanbarthol y Cymoedd | | | |
| | Mae gan dirweddau a threftadaeth a diwylliant cysylltiedig y Cymoedd broffil cenedlaethol a rhyngwladol uwch drwy Barc Rhanbarthol y Cymoedd a chysylltiadau â Ffordd Cymru. | Gorffennaf 2020 – Rhaglen ddigwyddiadau Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi'i rhoi ar waith ar bob un o safleoedd y Pyrth Darganfod (gan weithio'n agos gyda Croeso Cymru a Caru'r Cymoedd).<br>Mawrth 2021 – Cynlluniau gweithredu'r Pyrth Darganfod ar waith sy'n nodi sut maent yn cyfrannu at Ddatganiadau Ardal ac at gyflawni amcanion eu cynlluniau Llesiant Lleol.<br>Mawrth 2021 – Gwelliannau pellach i'r wefan wedi'u gwneud gyda fersiwn 2 o'r wefan wedi'i lansio.<br>Mawrth 2021 – Ail gam y broses o ddatblygu'r Pyrth Darganfod wedi'i gwblhau. | |
| Datblygu Thema Dau Parc Rhanbarthol y Cymoedd: Hamdden a Lles:<br>• Cysylltu cyfleoedd drwy ddatblygiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd gyda'r Metro i hyrwyddo Parc Rhanbarthol y Cymoedd a chefnogi cyfleoedd Teithio Llesol (Cerdded a Beicio) a fydd yn cyfrannu at wella llesiant yn y Cymoedd.<br>• Gweithio ar draws Llywodraeth Cymru a gyda phartneriaid i hyrwyddo mynediad i gefn gwlad i ddatblygu cyfleoedd i gynyddu rhagnodi cymdeithasol gwyrdd. | Yn y Cymoedd ceir amrywiaeth eang o weithgareddau awyr agored cynaliadwy a ddefnyddir gan gymunedau ac ymwelwyr.<br>Mae'r Cymoedd yn gartref i gyfres o lwybrau eiconig a ddefnyddir yn helaeth ar gyfer cerdded a beicio, megis Taith Taf, sy'n cysylltu Caerdydd â Bannau Brycheiniog, a'r Llwybr Celtaidd.<br>Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu polisïau a rhaglenni iechyd perthnasol i gefnogi llesiant.<br>Felly, mae'r Cymoedd ar flaen y gad o ran gweithio gyda'u hasedau amgylcheddol er mwyn helpu i wella iechyd a llesiant. | Rhagfyr 2019 – Mae tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn gweithio gyda gweithwyr polisi proffesiynol o fewn Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill er mwyn dylanwadu ar brosesau datblygu polisi a chyllido mewn perthynas â gweithgareddau llesiant.<br>Mawrth 2020 – Mae gweithgareddau awyr agored, llwybrau ac atyniadau awyr agored a thwristiaeth treftadaeth priodol yn cael eu hyrwyddo drwy wefan Parc Rhanbarthol y Cymoedd a'r cyfryngau cymdeithasol.<br>Mawrth 2020 – Caiff cynllun 'Mabwysiadu Gorsaf' Trafnidiaeth Cymru ei gefnogi a'i hyrwyddo drwy weithgarwch Parc Rhanbarthol y Cymoedd a phartneriaid y Parc. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; Trafnidiaeth Cymru; Byrddau Iechyd; Iechyd Cyhoeddus Cymru; y trydydd sector; Cyfoeth Naturiol Cymru; Croeso Cymru; Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. |

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Parc Rhanbarthol y Cymoedd | | | |
| | Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi codi proffil cyfleoedd drwy gynyddu lefelau gweithgarwch awyr agored ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol a chymunedau.<br>Mae mentrau rhagnodi gwyrdd a chymdeithasol wedi annog mwy o bobl i fentro allan, gan helpu i wella iechyd a llesiant.<br>Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y Cymoedd i gefnogi prosiectau sy'n gwella seilwaith gwyrdd ar ystadau tai. | Ebrill 2020 – Rhwydwaith Llesiant Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi'i sefydlu.<br>Ebrill 2020 – Canllaw 'Explore the Valleys' Trafnidiaeth Cymru wedi'i ddatblygu ar gyfer Llinellau craidd y Cymoedd.<br>Mai 2020 – Gweithdai sy'n cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ardal Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br>Ar waith – mae partneriaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd a chymunedau yn y Cymoedd yn cyfrannu at ddatblygu Cynlluniau Teithio Gorsafoedd Trafnidiaeth Cymru a fydd yn cynnwys cerdded a beicio. | |
| Datblygu Thema Tri Parc Rhanbarthol y Cymoedd: Cymunedau a Menter:<br>• Sefydlu a chynnal rhwydwaith cymorth cymheiriaid i sicrhau bod cyfranogiad cymunedau cadarn ac effeithiol wrth fodloni nodau ac amcanion Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br>• Archwilio datblygiad cyfleoedd economi sylfaenol posibl sy'n gysylltiedig ag ynni a'r amgylchedd. Lle y bo'n briodol, darparu cymorth i sefydliadau cymunedol i annog datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol lleol yn y Cymoedd. | Mae grwpiau cymunedol ledled y Cymoedd a Chymru wedi datblygu arbenigedd a sgiliau i roi eu prosiectau a'u mentrau ar waith drwy weithio'n well a sicrhau mwy o gyllid.<br>Mae grwpiau cymunedol yn cyflawni eu prosiectau yn effeithiol drwy gael gwell cymorth gan bartneriaid Parc Rhanbarthol y Cymoedd ynglŷn â materion megis perchenogaeth tir a rhentu ar brydles a chyllid.<br>Mae cymunedau yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd, gyda mwy o adnoddau a hyder ymhlith grwpiau a sefydliadau cymunedol ledled y Cymoedd. | Mawrth 2020 – Ymarfer i fapio gweithgarwch cymunedol ledled y Cymoedd wedi'i gwblhau.<br>Mawrth 2020 – Cronfa ddata o weithgarwch cymunedol ar gael drwy wefan Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br>Ebrill 2020 – Cynllun gwarcheidwaid wedi'i sefydlu sy'n datblygu sgiliau a gweithgareddau llesiant gan weithio i ddechrau allan o'r Pyrth Darganfod.<br>Ebrill 2020 – Cynhadledd gymunedol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu rhwydwaith rhwng cymheiriaid er mwyn cefnogi prosiectau cymunedol sy'n datblygu.<br>Mehefin 2020 – Papur gweithio i ystyried opsiynau datblygu ar gyfer tasglu cyflawni cymunedol i gefnogi cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, datblygu sgiliau a chyflogaeth. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; Grwpiau Cymunedol; Cyfoeth Naturiol Cymru; y Trydydd Sector. |

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Parc Rhanbarthol y Cymoedd | | | |
| Llunio canllawiau a chefnogaeth sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am ffynonellau a chyfleoedd cyllido y gellir manteisio arnynt i gefnogi gweledigaeth a chanlyniadau Parc Rhanbarthol y Cymoedd. | Mae partneriaid, cymunedau a rhanddeiliaid eraill yn gwbl ymwybodol o'r cyllid sydd ar gael ac yn cael eu cefnogi drwy'r broses gwneud cais/cyllid. | Rhagfyr 2019 –Bydd tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn gweithio gydag adrannau Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r canlyniadau dymunol mewn perthynas â rhaglenni cyllid (Croeso Cymru, Byw'n Iach ac Egnïol, Teithio Llesol a Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles), a chyfrannu at werthuso cynigion yn y dyfodol.<br>Ionawr 2020 – Mae rôl wedi'i sefydlu yn nhîm cymorth Parc Rhanbarthol y Cymoedd gyda ffocws ar gyllid. Bydd yn gweithio gyda phob sector i ystyried a datblygu polisïau a chyfleoedd cyllido a buddsoddi ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd.<br>Mawrth 2020 – Bydd cam cyntaf gwefan Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cysylltu â chyfleoedd cyllido ac yn eu hyrwyddo. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; sefydliadau cyllido; y trydydd sector; y sector preifat. |
| Sicrhau dyfodol hirdymor Parc Rhanbarthol y Cymoedd. | Mae strwythur cyllido ar waith er mwyn helpu i ddatblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn y tymor canolig i'r hirdymor gyda'r trefniadau llywodraethu priodol.<br>Mae polisïau ar waith er mwyn cefnogi'r uchelgais hirdymor o gynnal a gwella'r dirwedd ledled y Cymoedd. | Ionawr 2020 – Opsiynau ar gyfer trefniadau cyllido tymor canolig/hirdymor wedi'u datblygu i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru.<br>Ar waith – Bydd tîm a phartneriaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer datblygu dynodiad tir priodol i'r Cymoedd. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; Cyfoeth Naturiol Cymru; y Trydydd Sector; y Sector Preifat. |


# Ymgysylltu

Mae ymgysylltu mewnol ac allanol yn parhau i lywio gwaith y tasglu ac yn ategu darpariaeth ein blaenoriaethau allweddol. Mae nifer o rwydweithiau bellach wedi hen ennill eu plwyf gyda mwy na 500 o bobl yn cyfrannu'n uniongyrchol a llawer mwy yn cael eu cyrraedd drwy rannu'r wybodaeth â rhwydweithiau lleol. Mae'r rhain yn gysylltiadau hollbwysig ac mae'n bwysig ei gwneud yn hawdd i randdeiliaid o'r Cymoedd gydweithio, yn arbennig wrth geisio sicrhau newid hirdymor, cynaliadwy.

Bydd gwaith y tasglu yn gweithredu fel peilot i ddull Llywodraeth Cymru o ymgysylltu yn y dyfodol, ac yn cynnwys cymunedau wrth lunio polisi a gweithio'n hyblyg ar draws ffiniau polisi i gyflawni'r ymrwymiadau yn *Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb*.

| Cam Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|
| Parc Rhanbarthol y Cymoedd | | | |
| Gweithio gydag is-adran sefydliadol ac ymgysylltu Llywodraeth Cymru i dreialu Llwyfan Ymgysylltu â Dinasyddion newydd Llywodraeth Cymru (profi cysyniad) yn un o rwydweithiau sefydledig tasglu'r Cymoedd. Caiff y cynlluniau peilot eu defnyddio i werthuso'r dull gweithredu a nodi opsiynau posibl ar gyfer datblygu ac ehangu llwyfan digidol i Lywodraeth Cymru.<br>Caiff rhanddeiliaid a dinasyddion gymorth i gydweithio ac ymgysylltu â'i gilydd a Llywodraeth Cymru yn haws, gan gyfathrebu'n rheolaidd, rhannu arferion gorau a llywio polisi Llywodraeth Cymru. | Bydd llwyfan ymgysylltu â dinasyddion ar waith, er mwyn cynnig cyfleodd ehangach ar-lein i ddinasyddion a rhanddeiliaid ymgysylltu â Llywodraeth Cymru. | Chwefror/Mawrth 2020 - treialu'r llwyfan ymgysylltu â dinasyddion newydd ar gyfer profi cysyniad drwy rwydwaith tasglu'r Cymoedd. | Llywodraeth Cymru; Gweinidogion, Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol, awdurdodau lleol; prifysgolion. |

# Atodiad A: Llywodraethu



# Atodiad B: Aelodau'r Tasglu

## Tasglu Gweinidogol y Cymoedd




Rhes uchaf, chwith-dde
**James Davies**, Cadeirydd Gweithredol, Diwydiant Cymru (Cadeirydd is-grŵp Hybiau Strategol/ yr A465)
**Lee Waters AC**, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth (Cadeirydd y tasglu a Chadeirydd Cronfa Arloesi Tasglu'r Cymoedd – is-grŵp Alumni)
**Wendy Walters**, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Gâr
**Dawn Bowden**, Aelod Cynulliad Llafur Cymru, Merthyr Tudful a Rhymni (Cadeirydd is-grŵp Trafnidiaeth)

Rhes isaf, chwith-dde
**Andrew Morgan**, Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf (arweinydd is-grŵp Tai)
**Nicola Somerville**, Pennaeth Twf Cynhwysol a Datblygu Busnes, Swyddfa Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
**Josh Miles**, Rheolwr Polisi, y Ffederasiwn Busnesau Bach (Cadeirydd is-grŵp yr Economi Sylfaenol)
**Ruth Treharne**, Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, Bwrdd Iechyd Cwm Taf (arweinydd is-grŵp Parc Rhanbarthol y Cymoedd)







© Hawlfraint y Goron 2019
WG38637     ISBN digidol 978-1-83933-571-6